ADRODDIAD I'R: AWDURDOD TÂN
DYDDIAD: 5ed o Chwefror 2007

TESTUN: Y Diweddaraf ar y Grŵp Ymateb i Ddigwyddiad Arforol a'r Arolwg

CRYNODEB:
Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o bapurau diweddaru cynt, bod y gwasanaeth wedi bod wrthi'n datblygu ei allu diffodd tanau oddi ar y lan, yn unol â'r prosiect "Môr o Newid" Cenedlaethol. Ei fwriad yw darparu 15 o dimau ymateb i Ddigwyddiad Arforol, wedi eu lleoli'n strategol i gwmpasu holl ddyfroedd y DU.

I bob pwrpas, mae camau cychwynnol y prosiect ar ben ac mae'r Gwasanaeth yn "adnodd datganedig" cyfarparedig a hyfforddedig i ymdrin â phob math o argyfwng oddi ar y lan.

Roedd y rhan olaf o ddatblygiad y timau'n cynnwys arolwg gan y MCA, yn erbyn safonau Cenedlaethol. Cynhaliwyd yr arolwg hwn ym mis Ionawr 2007.

Roedd yr arolwg yn hynod o gadarnhaol ac mae'r papur amgaeëdig yn crynhoi'r canlyniadau a'r cefndir.

GOBLYGIADAU:
RISG WEITHREDOL: Uchel
RISG GYMUNEDOL: Uchel
HYFFORDDIANT: Uchel
A.D: Dim
CYLLID: Canolig
T.G/CYF: Dim
CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH: Dim
IECHYD A DIOGELWCH: Uchel
CYFREITHIOL: Dim

ARGYMHELLIAD:

- Bod yr Aelodau'n nodi faint o waith a wnaethpwyd mewn partneriaeth â'r MCA i sefydlu'r gallu Grŵp Ymateb i Ddigwyddiad Arforol yn MWWFRS.

- Bod yr Aelodau'n nodi canlyniadau arolwg terfynol yr Asiantaeth Arforol a Gwylwyr y Glannau o'n gallu oddi ar y lan.

PAPURAU CEFNDIR A DDEFNYDDIWYD YN YR ADRODDIAD HWN:
Arolwg yr Asiantaeth Arforol a Gwylwyr y Glannau – tîm ymateb oddi ar y lan MWWFRS

Awdur yr Adroddiad a'i Swydd	Rheolwr Rhanbarth

	P Bates
Rhif ffôn – Llinell Uniongyrchol	4406

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a chyn Frigadau Tân Dyfed a Gorllewin Morgannwg, wedi bod yn ymwneud â diffodd tanau ar y môr ers amser maith.

Erbyn dechrau'r flwyddyn 2000, roedd gwydnwch Cenedlaethol yn y maes hwn o weithredu yn cilio, a roedd dynesiad *ad-hoc* iawn yn datblygu am nifer o resymau. Cafodd y mater ei grybwyll gan yr Asiantaeth Arforol a Gwylwyr y Glannau, a rodd strategaeth mewn lle, mewn partneriaeth gyda'r CFOA a'r DCLG, trwy gyfrwng y Prosiect Môr o Newid, i sicrhau gallu diffodd tanau oddi ar y lan mwy cadarn.

Er mwyn galluogi ymateb cenedlaethol, pennwyd pymtheg o dimau a leolwyd yn strategol i gyflawni'r gwasanaeth hwn. Mae'r Awdurdod wedi cytuno y dylai MWWFRS fod yn un o'r 15 o Wasanaethau Tân ac Achub y DU, a fydd yn cyfranogi fel aelod o'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiad (MIRG). Mae'r grŵp hwn o Awdurdodau yn darparu gallu diffodd tanau oddi ar y lan i arfordir cyfan y Deyrnas Unedig.

O ganlyniad, sefydlwyd tîm MAWWFRS, ac erbyn hyn mae gyda ni dîm ymateb ar y môr sy'n cynnwys 47 o aelodau, wedi eu lleoli yn Sir Benfro yn bennaf. Mae darparu'r tîm hwn yn sicrhau fod ein holl bersonél yn cael eu hyfforddi a'u cyfarparu i'r safon uchaf. Mae'r MCA wedi darparu amrywiaeth eang o gyfarpar arbenigol i'r timau i'w defnyddio. Hefyd, mae gyda ni'r polisïau a'r gweithdrefnau diweddaraf. Cafodd y buddsoddiad hwn gan yr MCA, ei gyfatebu gan y Gwasanaeth trwy gyfrwng darparu personél, profiad a'r strwythur mewnol i gyflawni'r gallu gweithredol hwn.

Gwir ganlyniad y bartneriaeth tra effeithiol yma yw fod MAWWFRS yn dal i roi cefnogaeth ac amddiffyniad i'w gymuned arforol gyda thîm tra hyfforddedig, cyfarparedig, diogel a phroffesiynol sy'n medru ymdrin â thân, sylweddau peryglus a digwyddiadau diwydiannol ar y môr ac o fewn ein dyfroedd statudol.

Ar y 10^{fed} a'r 11^{eg} o Ionawr 2007, fe wnaeth aelodau o Dîm Prosiect yr MCA ymweld â MAWWFRS a chwblhawyd rhan MCA o'r broses archwilio. Manteisiwyd ar y cyfle i ganfod pa systemau, protocolau ayb,. a ddatblygwyd, sy'n diwallu anghenion Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn ogystal ag anghenion yr MCA.

Mae'n bleser gennyf adrodd wrth yr Aelodau fod y Prif Swyddog Tân wedi derbyn adroddiad canmoladwy iawn oddi wrth yr archwilwyr yn dynodi, ac eithrio ambell fân beth i'w wella, fod y tîm yn gweithredu yn unol â gofynion yr MCA. Mae'r MCA yn mynd ymlaen i longyfarch yr Awdurdod ar y "*dynesiad tra phroffesiynol a brwdfrydig i gefnogi rhaglen gwydnwch yr MCA a rôl yr MIRG*". Yn amgaeëdig, er gwybodaeth i'r Aelodau, mae adroddiad yr arolwg a dderbyniwyd oddi wrth yr MCA.

Mae'r adroddiad hwn yn brawf o gefnogaeth a rhagwelediad yr Aelodau wrth sefydlu'r MIRG am y tro cyntaf, parthed â gwydnwch diffodd tanau oddi ar y lan yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae'r arolwg yn dynodi diwedd darn o waith a barodd 2 flynedd, i sefydlu gallu'r MIRG yn ffurfiol yn MWWFRS. Tra gwnaethpwyd mwyafrif y gwaith i sefydlu'r tîm ymateb oddi ar y lan, bydd yn parhau i gael ei ddatblygu i sicrhau gwelliannau parhaus a bod safonau'n cael eu cynnal.